| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **20 Mehefin 2013** |
| **Swyddog/Aelod Arweiniol:** | **Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad/Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwella Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol (Chwarter 4 2012-13)** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno diweddariad ynglŷn â chyflawniad Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn niwedd chwarter 4, 2012-13.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen i'r Cyngor ddeall pa gynnydd sy'n digwydd wrth gyflawni deilliannau'r Cynllun Corfforaethol. Mae adrodd rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Caiff ei argymell bod yr Aelodau'n rhoi ystyriaeth i'r adroddiad, ac yn penderfynu ar unrhyw gamau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn ymateb i unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad o fewn yr adroddiad hwn.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1. Mae'r atodiad i'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o bob un o ddeilliannau'r Cynllun Corfforaethol. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn dangos fod cynnydd da'n cael ei wneud wrth gyflawni ein Cynllun Corfforaethol, a'n bod yn deall pam y pery'r angen i wella ar rai elfennau o'r Cynllun. Mae'n bwysig nodi fod yr adroddiad hwn yn ymwneud â blwyddyn gyntaf Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd, a bod rhai elfennau o'r cynllun wedi cael eu cynnwys yn benodol oherwydd i ni eu dynodi fel pethau yr oedd angen gwella arnynt. Rydym yn cydnabod y bydd rhai o'r meysydd yn cymryd rhagor o amser i'w gwella na'i gilydd, ac yn ddiweddar mae'r Tîm Gwella Corfforaethol wedi bod yn gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Arweiniol i roi eglurder ynglŷn â'n huchelgais ar gyfer y cynllun, ac i roi syniad o sut y mae disgwyl i daith y gwella edrych. Mae'r gwaith hwn bron wedi ei gwblhau, ac mae casgliadau'r gwaith hwnnw wedi eu hymgorffori yn y dadansoddi sydd wedi ei gynnwys o fewn yr adroddiad hwn.

4.2. Mae nifer o feysydd wedi eu hamlygu'n goch o fewn yr adroddiad hwn. Golyga hyn fod rhai dangosyddion a pheth perfformiad wedi eu dynodi fel bod yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella", ac mae rhai gweithgareddau wedi eu dyrannu â'r lefel isaf posibl o hyder y cânt eu cyflawni gan y swyddog sy'n gyfrifol amdanynt. Mae crynodeb o'r meysydd hyn i'w weld isod:

4.2.1. Mae canran y disgyblion sy'n gadael heb gymhwyster cydnabyddedig yn parhau i fod yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella". Er mwyn i'r sefyllfa ddod yn "dderbyniol" yn y

blynyddoedd sydd i ddod, mae’n edrych yn debyg fod angen gostyngiad o tua 0.5% (o’n sefyllfa bresennol o o.82%). Dangosydd blynyddol yw hwn ac nid yw’r sefyllfa wedi newid ers i hyn gael ei drafod fel rhan o gyflwyno adroddiad perfformiad Chwarter 3.

4.2.2. Mae nifer o fesurau perfformiad o fewn y flaenoriaeth addysg (yn ymwneud ag ystafelloedd dosbarth symudol a llefydd gweigion) wedi eu dynodi yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella". Fodd bynnag, dim ond adlewyrchu mae hyn y rhesymau dros eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol (h.y. rydym eisiau gwella ar y sefyllfa bresennol). O ganlyniad i’r ffaith fod angen eu gwella, ni fyddem yn disgwyl i'r rhain fod yn "dda" neu yn "ardderchog" ar hyn o bryd. Mae’r gwasanaeth ar hyn o bryd yn gweithio i roi eglurder ynglŷn â phryd y mae’n disgwyl i statws y mesurau perfformiad hyn wella, fel y gallwn ddadansoddi ein cynnydd ochr yn ochr â’r disgwyliadau hynny.

4.2.3. Mae canran ein ffyrdd A a B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol yn parhau i fod yn “flaenoriaeth ar gyfer gwella”. Fodd bynnag, dylid nodi fod sefyllfa ein ffyrdd C (cefn gwlad) yn "dda" a bod sefyllfa gyfun ffyrdd A, B ac C hefyd yn "dda". Efallai y byddwn hefyd yn canfod y bydd ein sefyllfa gymharol, ar gyfer rhai neu bob un o'r dangosyddion hyn, yn gwella unwaith y caiff data cenedlaethol ar gyfer 2012-13 ei gyhoeddi ym mis Awst.

4.2.4. Nid yw’r gwaith i ffurfioli’r cynlluniau gogyfer ag ymylfeini wedi’u gostwng wedi cael ei ddatblygu, ac mae gan y prosiect hwnnw felly statws coch. Mae hyn yn peri pryder gan fod i’r prosiect hwnnw gysylltiad amlwg gydag un o ddangosyddion ein blaenoriaeth ffyrdd ac mae hefyd yn gyfraniad allweddol tuag at Gynllun Cydraddoldeb Strategol y cyngor. Trafodwyd y mater fel rhan o Adroddiad Perfformiad Chwarter 3, ac mae’r gwasanaeth ers hynny wedi ymrwymo i roi blaenoriaeth i’w gwaith hwn yn ystod 2013/14.

4.2.5. Mae cyfran yr oedolion o fewn y boblogaeth nad oes modd iddynt fyw yn annibynnol yn “flaenoriaeth ar gyfer gwella”, er bod arwyddion fod hyn yn gwella. Yn hanesyddol mae gan Sir Ddinbych gyfran uwch o bobl yn byw mewn cartrefi gofal na’r rhan fwyaf o Awdurdodau Cymru. Mae gan y Cyngor gynllun hirdymor i leihau’r angen i dderbyn pobl o’r newydd i gartrefi gofal. Mae’r data sy’n ymwneud â lleoliadau newydd yn dangos fod gostyngiad amlwg yng nghyfanswm nifer y bobl hŷn sydd angen cefnogaeth gofal preswyl ac yn dangos gwelliant cyffredinol ers y flwyddyn flaenorol. Bydd cyhoeddi data cenedlaethol yn yr haf o gymorth i ni ddeall pryd y bydd ein gweithgarwch gwella yn debygol o arwain at weld y dangosydd hwn yn dod yn “dderbyniol” neu’n well na hynny. Mae disgwyl y byddwn yn gweithredu gam wrth gam i wella sefyllfa’r gwahanol garfannau oedran.

4.2.6. Ymddengys fod pa mor aml y digwydd tipio anghyfreithlon yma yn uchel yng nghyd-destun Cymru ac o'r herwydd mae wedi ei amlygu fel 'blaenoriaeth ar gyfer gwella". Er bod y gyfradd yn Sir Ddinbych wedi gostwng fymryn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, byddai angen newid sylweddol cyn y bydd y dangosydd hwn yn llwyddo i gyrraedd statws “dderbyniol”. Fodd bynnag, mae’r Gwasanaeth o’r farn ein bod yn adrodd am y dangosydd hwn yn wahanol i sut y mae cynghorau eraill yn gwneud hynny gan ein bod yn hunan-adrodd hefyd am ein gweithgarwch yn glanhau strydoedd, yn ogystal ag am y digwyddiadau sy’n cael eu hadrodd gan y system Rheoli Cyswllt Cwsmer. Efallai felly na fydd y dangosydd hwn yn gweithio fel mesurydd i gymharu yn ei erbyn ac efallai bod angen i ni roi ystyriaeth yn lleol i sut y dylai “rhagoriaeth” edrych. Ein huchelgais yw parhau â’r gostyngiad diweddar yng nghyfradd tipio anghyfreithlon wrth i ymddygiad yn y gymuned newid.

4.2.7. Mae'r ganran o'r digwyddiadau tipio anghyfreithlon sy'n cael eu hadrodd ac sydd wedi eu clirio o fewn 5 diwrnod gwaith ar hyn o bryd yn "flaenoriaeth ar gyfer gweithredu". Mae'r tair blynedd ddiwethaf wedi gweld gostyngiad mewn perfformiad, o 100% yn 2009-10 i 90.05% yn 2012-13. Er mwyn dychwelyd at statws "dderbyniol", byddai angen i'r cyngor wella i oddeutu 95%. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth o'r farn fod ein mecanwaith cofnodi (trwy gyfrwng y System Rheoli Cyswllt Cwsmer) yn gwneud i'r perfformiad ymddangos yn waeth nag ydyw mewn gwirionedd. Mae'r mesuriad yn cyfrif faint o amser mae'n ei gymryd rhwng cofnodi'r digwyddiad a chau'r digwyddiad ar y system Rheoli Cyswllt Cwsmer (yn hytrach na phan gafodd y digwyddiad ei glirio mewn gwirionedd, a all fod rai dyddiau ynghynt). Mae'r gwasanaeth yn gobeithio y gellir dod o hyd i ffordd i wella sut y caiff y data hwn ei gofnodi fel bod yr adrodd yn adlewyrchu ein perfformiad yn fwy manwl.

4.2.8. Mae argaeledd tai fforddiadwy preifat yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella", gan mai dim ond 16 o unedau a gynhyrchwyd yn 2012/13 ochr yn ochr â galw am 114 (14% o'r tai fforddiadwy yr oedd eu hangen).

4.2.9. Mae gostyngiad yn y nifer o geisiadau cynllunio y deuir i benderfyniad yn eu cylch mewn modd amserol yn golygu y caiff hyn bellach ei ystyried yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella". Mae hyn wedi gostwng o 90% yn 2011/12 i 82% yn 2012/13.

4.2.10. Mae'r cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella". Fodd bynnag, nawr fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu, mae disgwyl y bydd mesuriad y cyflenwad tir sydd ar gael i godi tai yn Sir Ddinbych yn gwella nes cyrraedd lefel dderbyniol.

4.2.11. Mae un deg pedwar Dangosydd Perfformiad Allweddol creiddiol (DPA) wedi cael eu dynodi er mwyn meincnodi gyda HouseMark. Mae'r data mwyaf diweddar yn dangos fod gan y cyngor saith ohonynt (50%) o fewn y chwartel uchaf, sef y trothwy sydd wedi ei ddynodi ar gyfer bod yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella". Yr uchelgais yn y pen draw yw i bob DPA fod o fewn y chwartel uchaf.

4.2.12. Mae cyfradd cwblhau gwerthusiadau perfformiad yn amserol hefyd yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella", gan fod ein perfformiad ar hyn o bryd yn 92.28%. Yn gorfforaethol, cytunwyd fod unrhyw ganlyniad sy'n is na 95% ar gyfer cwblhau gwerthusiadau yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella".

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Adroddiad yw hwn ynglŷn â'r cynnydd yr ydym yn ei wneud wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu tuag at gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol yn llwyddiannus.

## 6. Faint fydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn amlinellu faint o arian yn ychwanegol y mae'r cyngor yn bwriadu ei fuddsoddi ym mhob blaenoriaeth gorfforaethol yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Ar wahân i'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw, cymerir yn ganiataol y gellir cyflawni'r cynllun corfforaethol o fewn y cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

7.1. Cynhaliwyd asesiad o effaith y Cynllun Corfforaethol ar gydraddoldeb a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen asesu'r adroddiad hwn ymhellach gan na fydd yr argymhellion o'i fewn ag effaith uniongyrchol ar ein staff nac ar ein cymunedau. Fodd bynnag, dylid nodi fod un o'r meysydd a amlygwyd i fod yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella" (ymylfeini wedi eu gostwng) wedi ei ddynodi fel gweithgaredd o ganlyniad i'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y Cynllun Corfforaethol ar gydraddoldeb. Mae statws y gweithgarwch hwn felly yn peri pryder penodol o safbwynt cydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda phwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1. Daw'r wybodaeth yr oedd ei hangen i gynhyrchu'r adroddiad hwn oddi wrth y gwasanaethau, a chafodd fersiwn ddrafft o'r adroddiad ei drafod mewn cyfarfod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 6 Mehefin 2013. Pwrpas yr adroddiad hwn yw galluogi craffu ar yr adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno ger bron y Cabinet ar 25 Mehefin 2013.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Nid oedd angen datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai'r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

**11. Y Grym i Benderfynu**

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2. Mae Erthygl 6.1 y Cyfansoddiad yn amlinellu cyfrifoldebau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol.

**Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Gwella Corfforaethol

Ffôn: 07825 451448